

Polisi preifatrwydd

Cyflwyniad

Mae Arbed am Byth yn parhau eich preifatrwydd ac yn ymrwymedig i ddiogelu eich data personol. Bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn rhoi gwybod i chi sut y byddwn yn gofalu am y data personol rydych yn eu darparu i ni pan fyddwch yn ymweld â'n gwefan (ni waeth o ble y byddwch yn ymweld â hi). Bydd y polisi hwn yn dweud wrthyfych am eich hawliau preifatrwydd a sut mae'r gyfraith yn eich diogelu.

Defnyddiwch 10. Rhestr Termau ar ddiwedd y ddogfen hon hefyd er mwyn deall ystyr rhai o'r termau a ddefnyddir yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

- 1. Gwybodaeth bwysig a phwy ydym ni**
- 2. Y data rydym yn eu casglu amdanoch chi**
- 3. Sut caiff y data personol hyn eu casglu**
- 4. Sut rydym yn defnyddio eich data personol**
- 5. Datgelu eich data personol**
- 6. Trosglwyddiadau rhyngwladol**
- 7. Diogelu data**
- 8. Cadw data**
- 9. Eich hawliau cyfreithiol**
- 10. Rhestr Termau**

1. Gwybodaeth bwysig a phwy ydym ni

Diben yr hysbysiad preifatrwydd hwn

Nod yr hysbysiad preifatrwydd hwn yw rhoi gwybodaeth i chi am sut mae Arbed am Byth yn casglu ac yn prosesu eich data personol, gan gynnwys unrhyw ddata y byddwch yn eu darparu drwy'r wefan hon neu wrth lenwi ffurflen gyswllt.

Ni fwriedir i'r wefan hon gael ei defnyddio gan blant ac nid ydym yn casglu data sy'n gysylltiedig â phlant yn fwriadol.

Mae'n bwysig i chi ddarllen yr hysbysiad preifatrwydd hwn ynghyd ag unrhyw hysbysiad preifatrwydd neu hysbysiad prosesu teg arall a ddarparwn ar achlysuron penodol pan fyddwn yn casglu neu'n prosesu data amdanoch chi, er mwyn i chi fod yn gwbl ymwybodol o sut a pham rydym yn defnyddio eich data. Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn ategu'r hysbysiadau eraill ac ni fwriedir iddo eu disodli.

Rheolydd

Arbed am Byth

Polisi preifatrwydd a chwcis



Arbed am Byth yw'r rheolydd ac mae'n gyfrifol am eich data personol (y cyfeirir ato'n gyfunol fel Arbed am Byth, y "Cwmni" neu "ni" neu "ein" yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn).

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr hysbysiad preifatrwydd hwn, gan gynnwys unrhyw geisiadau i arfer eich hawliau cyfreithiol, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion a nodir isod.

Manylion cyswllt

Dyma ein manylion llawn:

Arbed am Byth
Uned 2 Cefn Coed
Nantgarw
CF15 7QQ
info@arbedambyth.wales

Mae gennych hawl i wneud cwyn ar unrhyw adeg i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), awdurdod goruchwyllo'r DU ar gyfer materion yn ymwneud â diogelu data (www.ico.org.uk). Fodd bynnag, byddem yn gwerthfawrogi'r cyfle i ymdrin â'ch pryderon cyn i chi fynd at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, felly dylech gysylltu â ni yn y lle cyntaf.

Newidiadau i'r hysbysiad preifatrwydd a'ch dyletswydd chi i roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau

Gallwn newid y polisi hwn drwy ddiweddarau'r dudalen hon. Dylech ddod i'r dudalen hon o bryd i'w gilydd i sicrhau eich bod yn fodlon ar unrhyw newidiadau. Mae'r polisi hwn yn weithredol o 25 Mai 2018.

Mae'n bwysig bod y data personol a ddelir gennym amdanoch yn gywir ac yn gyfredol. Dylech roi gwybod i ni os yw eich data personol yn newid yn ystod eich perthynas â ni.

Dolenni i wefannau trydydd parti

Gallai'r wefan hon gynnwys dolenni i wefannau trydydd parti, ategion neu gymwysiadau, neu storio ffeiliau cwci ar eich cyfrifiadur er mwyn darparu ei gwasanaeth(au). Gallai clicio ar y dolenni hynny neu alluogi'r cysylltiadau hynny ganiatáu i drydydd parti'ion gasglu, storio neu rannu data amdanoch chi. Nid ydym yn rheoli'r gwefannau trydydd parti hyn ac nid ydym yn gyfrifol am eu datganiadau preifatrwydd. Pan fyddwch yn gadael ein gwefan,

Arbed am Byth

Polisi preifatrwydd a chwcis



rydym yn eich annog i ddarllen hysbysiadau preifatrwydd pob gwefan y byddwch yn ymweld â hi.

2. Y data rydym yn eu casglu amdanoch chi

Mae data personol, neu wybodaeth bersonol, yn golygu unrhyw wybodaeth am unigolyn sy'n ei gwneud yn bosibl adnabod y person hwnnw. Nid yw'n cynnwys data lle mae'r manylion sy'n ei gwneud yn bosibl i adnabod unigolyn wedi'u dileu (data dienw).

Gallwn gasglu, defnyddio, storio a throsglwyddo gwahanol fathau o ddata personol amdanoch chi, yr ydym wedi'u grwpio at ei gilydd fel a ganlyn:

- **Data Hunaniaeth** sy'n cynnwys enw cyntaf a chyfenw.
- **Data Cyswllt** sy'n cynnwys enw cwmni a chyfeiriad e-bost.
- **Data Technegol** sy'n cynnwys cyfeiriad protocol y rhyngwrdd (IP), y math o borwr a'r fersiwn, gosodiadau parth amser a lleoliad, mathau a fersiynau ategion porwr, system weithredu a llwyfan a'r dechnoleg arall ar y dyfeisiau rydych yn eu defnyddio i fynd i'r wefan hon.
- **Data Proffil** sy'n cynnwys eich diddordebau, eich hoffterau, eich adborth a'ch ymatebion i arolygon.
- **Data Defnyddio** sy'n cynnwys gwybodaeth am sut rydych yn defnyddio ein gwefan, ein cynhyrchion a'n gwasanaethau.
- **Data Marchnata** sy'n cynnwys eich dewisiadau o ran sut rydym ni a thrydydd partiïon yn cyfathrebu â chi.
- **Data Cyfathrebu** sy'n cynnwys yr holl achosion o gyfathrebu â chi, boed drwy e-bost, y post, dros y ffôn neu fel arall.

Rydym hefyd yn casglu, defnyddio a rhannu **Data Cyfunol** megis data ystadegol neu ddemograffig at unrhyw ddiben. Gall data cyfunol ddeillio o'ch data personol ond ni chaiff ei ystyried yn ddata personol yn ôl y gyfraith am nad yw'n datgelu pwy ydych chi yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol. Er enghraifft, gallwn gyfuno eich Data Defnyddio i gyfrifo'r ganran o ddefnyddwyr sy'n defnyddio nodwedd benodol o'r wefan. Fodd bynnag, os byddwn yn cyfuno neu'n cysylltu Data Cyfunol â'ch data personol fel bod modd eich adnabod chi yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, rydym yn trin y data cyfun hyn fel petaent yn ddata personol, a ddefnyddir yn unol â'r hysbysiad preifatrwydd hwn.

Os byddwch yn methu â darparu data personol

Lle y bydd angen i ni gasglu data personol yn ôl y gyfraith neu delerau contract sydd gennym â chi, a'ch bod yn gwrthod darparu'r data hynny pan ofynnir amdanynt, mae'n bosibl na fyddwn yn gallu cyflawni'r contract sydd

gennym, neu yr ydym yn ceisio'i wneud, â chi (er enghraifft, i ddarparu nwyddau neu wasanaethau i chi). Yn yr achos hwn, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i ni ganslo cynnyrch neu wasanaeth rydych yn ei gael gennym, ond os felly, byddwn yn rhoi gwybod i chi ar y pryd.

3. Sut caiff y data personol hyn eu casglu?

Rydym yn defnyddio gwahanol ddulliau o gasglu data gennych ac amdanoch, gan gynnwys y canlynol:

- **Rhyngweithio uniongyrchol.** Gallwch roi eich Data Hunaniaeth a Chyswllt i ni drwy lenwi ffurflenni neu drwy ohebu â ni drwy'r post, dros y ffôn, drwy e-bost neu fel arall. Mae hyn yn cynnwys data personol rydych yn eu darparu pan fyddwch yn:
 - gwneud cais am ein cynhyrchion neu wasanaethau;
 - creu cyfrif ar ein gwefan;
 - tanysgrifio i'n gwasanaeth neu ein cyhoeddiadau;
 - gofyn am gael deunyddiau marchnata wedi eu hanfon atoch;
 - rhoi cynnig ar gystadleuaeth, cynnig hyrwyddo neu arolwg; neu'n
 - rhoi adborth i ni.
- **Technoleg neu rhyngweithiadau awtomataidd.** Wrth i chi rhyngweithio â'n gwefan, gallwn gasglu Data Technegol am eich cyfarpar, eich gweithredoedd pori a'ch patrymau yn awtomataidd. Rydym yn casglu'r data hyn drwy ddefnyddio cwcis, cofnodion gweinydd a thechnolegau tebyg eraill. I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch ein polisi cwcis.
- **Trydydd partiön neu ffynonellau sydd ar gael yn gyhoeddus.** Gallwn gael data personol amdanoch chi gan amrywiol drydydd partiön a ffynonellau cyhoeddus, fel y nodir isod.
 - Data Technegol gan y partiön canlynol:
 - a. Darparwyr dadansoddeg, storio, offer a chyfryngau wedi'u lleoli yn yr UE a'r tu allan i'r UE;
 - b. Darparwyr gwasanaethau olrhain cyfeiriadau IP wedi'u lleoli yn yr UE;
 - c. offer rheoli ansawdd awtomataidd wedi'u lleoli yn yr UE;
 - d. offer diogelwch a chydymffurfio awtomataidd wedi'u lleoli y tu allan i'r UE;

- e. rhwydweithiau cyfryngau a chyfryngau cymdeithasol megis Twitter, LinkedIn, Instagram, YouTube and Vimeo wedi'u lleoli y tu allan i'r UE; a
 - f. darparwyr arolygon a dosbarthwyr e-bost wedi'u lleoli y tu allan i'r UE;
- Data Hunaniaeth a Chyswllt gan ddarparwyr ffrydiau data a gwasanaethau lletya a ddarperir yn yr UE a'r tu allan.

4. Sut rydym yn defnyddio eich data personol

Dim ond pan fydd y gyfraith yn caniatáu y byddwn yn defnyddio eich data personol. Gan amlaf, byddwn yn defnyddio eich data personol dan yr amgylchiadau canlynol:

- Lle y bydd angen i ni gyflawni contract yr ydym ar fin ei wneud â chi neu gontract sydd gennym â chi.
- Lle y bydd yn angenrheidiol ar gyfer ein buddiannau dilys (neu fuddiannau trydydd parti) ac nad yw eich buddiannau a'ch hawliau sylfaenol yn drech na'r buddiannau hynny.
- Lle y bydd angen i ni gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol neu reoleiddiol.

Gweler isod i ddysgu mwy am y mathau o seiliau cyfreithiol y byddwn yn dibynnu arnynt wrth brosesu eich data personol.

Yn gyffredinol, nid ydym yn dibynnu ar gydsyniad fel sail gyfreithlon ar gyfer prosesu eich data personol, ac eithrio mewn perthynas ag anfon negeseuon marchnata trydydd parti atoch drwy e-bost. Mae gennych hawl i dynnu eich cydsyniad i farchnata ar unrhyw adeg drwy gysylltu â ni.

At ba ddibenion y byddwn yn defnyddio eich data personol

Rydym wedi nodi isod ddisgrifiad o'r holl ffyrdd rydym yn bwriadu defnyddio eich data personol, a'r seiliau cyfreithiol rydym yn dibynnu arnynt er mwyn gwneud hynny. Rydym hefyd wedi nodi beth yw ein buddion dilys lle bo'n briodol.

Noder y gallwn brosesu eich data personol ar fwy nag un sail gyfreithlon gan ddibynnu ar y diben penodol yr ydym yn defnyddio eich data ar ei gyfer. Cysylltwch â ni os oes angen manylion arnoch am y sail gyfreithlon benodol

Arbed am Byth

Polisi preifatrwydd a chwcis



rydym yn dibynnu arni i brosesu eich data personol lle y bydd mwy nag un sail wedi'i nodi isod.

1. I'ch cofrestru fel cwsmer newydd

Math o ddata

- (a) Hunaniaeth
- (b) Cyswllt

Sail gyfreithlon ar gyfer prosesu gan gynnwys sail y buddiant dilys

- (a) Cyflawni contract â chi

2. I brosesu a chyflawni eich archeb

Mae hyn yn cynnwys:

- (a) Rhannu eich manylion â chwmnïau trydydd parti, megis isgontractwyr, at ddibenion cynnal arolwg o'ch cartref neu osod mesurau y cytunwyd arnynt

Math o ddata

- (a) Hunaniaeth
- (b) Cyswllt
- (c) Proffil
- (d) Marchnata a Chyfathrebu

Sail gyfreithlon ar gyfer prosesu gan gynnwys sail y buddiant dilys

- (a) Cyflawni contract â chi
- (b) Angenrheidiol ar gyfer ein buddiannau dilys

3. I reoli ein perthynas â chi

Mae hyn yn cynnwys:

- (a) Rhoi gwybod i chi am newidiadau i'n telerau neu ein polisi preifatrwydd
- (b) Gofyn i chi wneud adolygiad neu gymryd rhan mewn arolwg
- (c) Ateb unrhyw ymholiadau a all fod gennych

Math o ddata

- (a) Hunaniaeth
- (b) Cyswllt
- (c) Proffil
- (d) Marchnata a Chyfathrebu

Sail gyfreithlon ar gyfer prosesu gan gynnwys sail y buddiant dilys

- (a) Cyflawni contract â chi
- (b) Angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol
- (c) Angenrheidiol ar gyfer ein buddiannau dilys (i gadw ein cofnodion yn gyfredol ac astudio sut mae cwsmeriaid yn defnyddio ein cynhyrchion/gwasanaethau)
- (d) I ymdrin â'ch ymholiadau

4. I'ch galluogi i gymryd rhan mewn cystadleuaeth, ennill gwobr neu gwblhau arolwg

Math o ddata

- (a) Hunaniaeth
- (b) Cyswllt
- (c) Proffil
- (d) Defnyddio
- (e) Marchnata a Chyfathrebu

Sail gyfreithlon ar gyfer prosesu gan gynnwys sail y buddiant dilys

- (a) Cyflawni contract â chi
- (b) Angenrheidiol ar gyfer ein buddiannau dilys (i astudio sut mae cwsmeriaid yn defnyddio ein cynhyrchion/gwasanaethau, i'w datblygu a helpu i ddatblygu ein busnes)

5. I weinyddu a diogelu ein busnes a'r wefan hon

Mae hyn yn cynnwys technegau datrys problemau, dadansoddi data, profi, cynnal a chadw'r system, cymorth, adrodd a lletya data

Math o ddata

- (a) Hunaniaeth
- (b) Cyswllt
- (c) Technegol

Sail gyfreithlon ar gyfer prosesu gan gynnwys sail y buddiant dilys

- (a) Angenrheidiol ar gyfer ein buddiannau dilys (ar gyfer rhedeg ein busnes, darparu gwasanaethau gweinyddol a TG, diogelwch y rhwydwaith, atal twyll ac yng nghyd-destun ad-drefnu'r buses neu ymarfer ailstrwythuro'r grŵp)
- (b) Angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol

6. I gyflwyno cynnwys gwefan a hysbysebion perthnasol i chi a mesur neu ddeall effeithiolrwydd yr hysbysebion rydym yn eu cyflwyno i chi

Math o ddata

- (a) Hunaniaeth
- (b) Cyswllt
- (c) Proffil
- (d) Defnyddio
- (e) Marchnata a Chyfathrebu
- (f) Technegol

Sail gyfreithlon ar gyfer prosesu gan gynnwys sail y buddiant dilys

Angenrheidiol ar gyfer ein buddiannau dilys (i astudio sut mae cwsmeriaid yn

Arbed am Byth

Polisi preifatrwydd a chwcis



defnyddio ein cynhyrchion/gwasanaethau, i'w datblygu, i ddatblygu ein busnes a llywio ein strategaeth farchnata)

7. I ddefnyddio dadansoddeg data i wella ein gwefan, cynhyrchion/gwasanaethau, marchnata, cydberthnasau a phrofiad cwsmeriaid

Math o ddata

- (a) Technegol
- (b) Defnyddio

Sail gyfreithlon ar gyfer prosesu gan gynnwys sail y buddiant dilys

Angenrheidiol ar gyfer ein buddiannau dilys (i ddiffinio mathau o gwsmeriaid ar gyfer ein cynhyrchion a'n gwasanaethau, i gadw ein gwefan yn gyfredol ac yn berthnasol, i ddatblygu ein busnes a llywio ein strategaeth farchnata)

8. I wneud awgrymiadau ac argymhellion i chi ynglŷn â nwyddau neu wasanaethau a all fod o ddiddordeb i chi

Math o ddata

- (a) Hunaniaeth
- (b) Cyswllt
- (c) Technegol
- (d) Defnyddio
- (e) Proffil

Sail gyfreithlon ar gyfer prosesu gan gynnwys sail y buddiant dilys

Angenrheidiol ar gyfer ein buddiannau dilys (i ddatblygu eich cynhyrchion/gwasanaethau a datblygu ein busnes)

Marchnata

Rydym yn ymdrechu i roi dewisiadau i chi ynghylch rhai o'r ffyrdd penodol y caiff eich data eu defnyddio, yn arbennig mewn cysylltiad â marchnata a chyfathrebu. Rydym wedi sefydlu'r dulliau rheoli data personol canlynol:

Cynigion hyrwyddo gennym ni

Gallwn ddefnyddio eich Data Hunaniaeth, Cyswllt, Technegol, Defnyddio a Phroffil i ffurfio barn ar yr hyn rydym yn meddwl y byddwch ei eisiau neu ei angen, neu'r hyn a fyddai o ddiddordeb i chi. Drwy wneud hyn rydym yn penderfynu pa gynhyrchion, gwasanaethau a chynigion a allai fod yn berthnasol i chi (yr enw a rown ar hyn yw marchnata).

Byddwch yn derbyn negeseuon marchnata gennym os ydych wedi gofyn am gael gwybodaeth gennym ni, prynu nwyddau neu wasanaethau oddi

Arbed am Byth

Polisi preifatrwydd a chwcis



wrthym neu wedi mynegi diddordeb yn ein cynhyrchion ac, ym mhob achos, nad ydych wedi optio allan o dderbyn y negeseuon marchnata hynny.

Marchnata gan drydydd partiön

Byddwn yn cael eich cydsyniad penodol i optio i mewn cyn rhannu eich data personol ag unrhyw gwmni y tu allan i gwmnïau Arbed am Byth at ddibenion marchnata. Fel yr amlygir uchod, mae hyn ar wahân i rannu eich manylion â chwmnïau trydydd parti at ddibenion cyflawni ein contract â chi (h.y. cynnal arolwg o'ch eiddo a gosod mesuryddion).

Optio allan

Gallwch ofyn i ni neu i drydydd partiön roi'r gorau i anfon negeseuon marchnata atoch ar unrhyw adeg drwy gysylltu â ni.

Lle y byddwch yn optio allan rhag derbyn y negeseuon marchnata hyn, ni fydd hyn yn gymwys i ddata personol a ddarperir i ni o ganlyniad i brynu cynnyrch/gwasanaeth neu brofiad neu drafodion eraill.

Cwcis

Ffeiliau testun bach yw cwcis a roddir ar eich cyfrifiadur gan y gwefannau rydych yn ymweld â nhw. Cânt eu defnyddio'n helaeth er mwyn gwneud i wefannau weithio, neu weithio'n fwy effeithlon, ac er mwyn rhoi gwybodaeth i berchnogion y safle am agweddau ar eich ymweliad. Gallwch osod eich porwr i wrthod rhai cwcis porwyr neu bob un ohonynt, neu i roi gwybod i chi pan fydd gwefan yn gosod cwcis neu'n eu defnyddio ar eich porwr. Os byddwch yn analluogi neu'n gwrthod cwcis, noder na fydd rhai rhannau o'r wefan hon ar gael i chi neu ni fyddant yn gweithio'n iawn. Mae'r rhan fwyaf o borwyr gwe yn caniatáu i chi gael rhywfaint o reolaeth dros y rhan fwyaf o gwcis drwy osodiadau'r porwr. I ddysgu mwy am gwcis, gan gynnwys pa gwcis sydd wedi'u gosod a sut i'w rheoli a'u dileu, ewch i

www.allaboutcookies.org. I gael rhagor o wybodaeth am y cwcis rydym yn eu defnyddio, gweler ein polisi cwcis.

Newid diben

Byddwn ond defnyddio eich data personol at y dibenion y gwnaethom eu casglu, oni bai ein bod yn credu'n rhesymol bod angen i ni eu defnyddio am reswm arall, a bod y rheswm hwnnw yn gydnaws â'r diben gwreiddiol. Os hoffech gael eglurhad am y ffordd y mae'r prosesu at y diben newydd yn gydnaws â'r diben gwreiddiol, cysylltwch â ni.

Os bydd angen i ni ddefnyddio eich data personol at ddiben nad yw'n perthyn dim i'r diben gwreiddiol, byddwn yn rhoi gwybod i chi a byddwn yn egluro'r sail gyfreithlon sy'n caniatáu i ni wneud hynny.

Noder y gallwn brosesu eich data personol heb yn wybod i chi a heb eich caniatâd chi, lle y bydd yn ofynnol gwneud hynny, neu y caniateir gwneud hynny o dan y gyfraith.

5. Datgelu eich data personol

Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i ni rannu eich data personol â'r partiön a nodir isod at y dibenion a nodir yn adran 4 uchod.

- Trydydd Partiön Mewnol fel y'u nodir yn y Rhestr Termau
- Trydydd Partiön Allanol fel y'u nodir yn y Rhestr Termau
- Trydydd partiön y gallem ddewis gwerthu, trosglwyddo neu uno rhannau o'n busnes neu'n hasedau â nhw. Neu, mae'n bosibl y byddwn yn ceisio caffael busnesau eraill neu uno â nhw. Os bydd newid yn digwydd i'n busnes, gallai'r perchnogion newydd ddefnyddio eich data yn yr un ffordd â'r hyn a nodir yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

Rydym yn mynnu bod pob trydydd parti yn parchu diogelwch eich data a'i drin yn unol â'r gyfraith. Nid ydym yn caniatáu i ddarparwyr gwasanaethau trydydd parti ddefnyddio eich data personol at eu dibenion eu hunain, ac rydym ond yn caniatáu iddynt brosesu eich data personol at ddibenion penodol ac yn unol â'n cyfarwyddiadau.

6. Trosglwyddiadau rhyngwladol

Lle bynnag y bo'n bosibl, nid ydym yn trosglwyddo eich data personol y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE).

Arbed am Byth

Polisi preifatrwydd a chwcis



Mae rhai o'n trydydd partiön wedi'u lleoli y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) ac felly bydd angen trosglwyddo eich data personol y tu allan i'r AEE er mwyn iddynt brosesu eich data personol.

Pryd bynnag y byddwn yn trosglwyddo eich data personol y tu allan i'r AEE, rydym yn sicrhau y cânt yr un lefel o ddiogelwch drwy sicrhau y caiff o leiaf un o'r mesurau diogelwch canlynol eu gweithredu:

- Byddwn ond yn trosglwyddo eich data personol i wledydd y mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn pennu eu bod yn cynnig lefel ddigonol o ddiogelwch ar gyfer data personol. I gael rhagor o fanylion, gweler European Commission: Adequacy of the protection of personal data in non-EU countries.
- Pan fyddwn yn defnyddio darparwyr sydd wedi'u lleoli yn yr Unol Daleithiau, gallwn drosglwyddo data iddynt os ydynt yn rhan o'r 'Darian Preifatrwydd' (Privacy Shield) sy'n mynnu eu bod yn cynnig diogelwch tebyg i ddata personol a rennir rhwng Ewrop a'r Unol Daleithiau. I gael rhagor o fanylion, gweler European Commission: EU-US Privacy Shield.

Cysylltwch â ni os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y dull penodol rydym yn ei ddefnyddio wrth drosglwyddo eich data y tu allan i'r AEE.

7. Diogelu data

Rydym wedi rhoi mesurau diogelwch priodol ar waith i atal eich data personol rhag cael eu colli ar ddamwain, eu defnyddio mewn ffordd ddiawdurdod, eu haddasu neu eu datgelu. Yn ogystal, mae mynediad at eich data personol wedi'i gyfyngu i'r cyflogeion, asiantau, contractwyr a thrydydd partiön eraill hynny sydd ag angen busnes i gael gafael arnynt. Byddant ond yn prosesu eich data yn ôl ein cyfarwyddiadau ni ac maent yn ddarostyngedig i ddyletswydd cyfrinachedd.

Rydym wedi rhoi gweithdrefnau ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw achos lle amheuir tramgwydd mewn cysylltiad â data personol, a byddwn yn rhoi gwybod am dramgwydd o'r fath i chi ac unrhyw reoleiddiwr perthnasol lle y bydd yn ofynnol i ni wneud hynny o dan y gyfraith.

8. Cadw data

Am ba mor hir y byddwch yn defnyddio fy nata personol?

Arbed am Byth

Polisi preifatrwydd a chwcis



Byddwn ond yn cadw eich data personol am yr amser sydd ei angen er mwyn cyflawni'r dibenion y gwnaethom eu casglu ar eu cyfer, gan gynnwys at ddibenion bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol, cyfrifysdu neu adrodd.

Er mwyn pennu'r cyfnod cadw priodol ar gyfer data personol, rydym yn ystyried faint o ddata a geir, eu natur a'u sensitifrwydd, y risg posibl o niwed o ddefnydd neu ddatgeliad anawdurdodedig o'ch data personol, y dibenion rydym yn prosesu eich data personol ar eu cyfer ac a allwn gyflawni'r dibenion hyn drwy ddulliau eraill, a'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

Mae manylion y cyfnodau cadw ar gyfer gwahanol agweddau ar eich data personol ar gael yn ein polisi cadw, y gallwch ofyn amdano drwy gysylltu â ni. O dan rai amgylchiadau, gallwch ofyn i ni ddileu eich data: gweler Gofyn am ddileu isod i gael rhagor o wybodaeth.

O dan rai amgylchiadau, gallwn wneud eich data yn ddiennw (fel na ellir eu cysylltu â chi) at ddibenion ymchwil neu ystadegol, ac yn yr achos hwnnw, gallwn ddefnyddio'r wybodaeth hon am gyfnod amhenodol heb roi unrhyw rybudd pellach i chi.

9. Eich hawliau cyfreithiol

O dan amgylchiadau penodol, mae gennych hawliau o dan gyfreithiau diogelu data mewn perthynas â'ch data personol. Gweler yr isod i ddysgu mwy am yr hawliau hyn:

- Gofyn am gael gweld eich data personol.
- Gofyn am gael cywirio eich personol.
- Gofyn am gael dileu aich data personol.
- Gwrthwynebu i'ch data personol gael eu prosesu.
- Gofyn am gyfyngiad ar brosesu eich data personol.
- Gofyn am gael trosglwyddo eich data personol.
- Hawl i dynnu eich cydsyniad yn ôl.

Os hoffech arfer unrhyw rai o'r hawliau a nodir uchod, cysylltwch â ni.

Ni fydd rhaid talu ffi fel arfer

Ni fydd angen i chi dalu ffi i gael gweld eich data personol (nac i arfer unrhyw un o'r hawliau eraill). Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddwn yn codi ffi resymol os yw eich cais yn amlwg yn ddigynsail, yn ailadroddus neu'n ormodol. Fel arall, mae'n bosibl y byddwn yn gwrthod â chydymffurfio â'ch cais dan yr amgylchiadau hyn.

Yr hyn y gallem fod ei angen gennych chi

Mae'n bosibl y bydd angen i ni ofyn i chi am wybodaeth benodol er mwyn ein helpu i gadarnhau pwy ydych chi a sicrhau eich hawl i weld eich data personol (neu i arfer unrhyw un o'ch hawliau eraill). Mesur diogelwch yw hwn er mwyn sicrhau na chaiff eich data personol eu datgelu i unrhyw berson nad oes ganddo'r hawl i'w cael. Efallai y byddwn yn cysylltu â chi i ofyn am fwy o wybodaeth mewn perthynas â'ch cais er mwyn i ni allu ymateb yn gyflymach.

Terfyn amser ar gyfer ymateb

Rydym yn ceisio ymateb i bob cais dilys o fewn mis. Weithiau, mae'n bosibl y bydd yn cymryd mwy na mis i ni os yw eich cais yn arbennig o gymhleth neu os ydych chi wedi gwneud nifer o geisiadau. Os bydd hyn yn digwydd, byddwn yn rhoi gwybod i chi ac yn sicrhau eich bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa.

10. Rhestr Termaw

SAIL GYFREITHLON

Mae **Buddiant Dilys** yn golygu buddiant ein busnes wrth gynnal a rheoli ein busnes er mwyn ein galluogi i roi'r gwasanaeth/cynnyrch gorau a'r profiad gorau a mwyaf diogel i chi. Rydym yn gwneud yn siŵr ein bod yn ystyried ac yn cydbwysu unrhyw effaith bosibl arnoch chi (boed yn gadarnhaol neu'n negyddol) â'ch hawliau cyn i ni brosesu eich data personol at ein buddiannau dilys. Nid ydym yn defnyddio eich data personol ar gyfer gweithgareddau lle mae'r effaith arnoch chi yn drech na'n buddiannau ni (oni bai bod gennym eich cydsyniad chi neu fel arall y caniateir hynny o dan y gyfraith). Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y ffordd rydym yn asesu ein buddiannau dilys yn erbyn unrhyw effaith bosibl arnoch chi mewn cysylltiad â gweithgareddau penodol drwy gysylltu â ni.

Mae **Cyflawni Contract** yn golygu prosesu eich data lle bo angen gwneud hynny er mwyn cyflawni contract yr ydych yn barti iddo neu gymryd camau yn unol â'ch cais cyn gwneud contract o'r fath.

Mae **Cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol neu reoleiddiol** yn golygu prosesu eich data personol lle bo angen gwneud hynny er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol neu reoleiddiol yr ydym yn destun iddi.

TRYDYDD PARTÏON

Trydydd Partïon Mewnol

Cwmnïau eraill sy'n gweithio gydag Arbed am Byth, sy'n gweithredu fel cyd-reolyddion a/neu broseswyr ac sydd wedi'u lleoli yn y DU a/neu wledydd eraill, ac sy'n darparu gwasanaethau gweinyddu system a/neu TG.

Trydydd Partïon Allanol

- Darparwyr gwasanaethau digidol sy'n gweithredu fel proseswyr, sy'n gweithredu yn yr UE, sy'n darparu nifer o wasanaethau, gan gynnwys ond heb fod wedi'u cyfyngu i ffrydiau data, lletya SSL, dadansoddi data, CRM, ffrydio fideo, cyfryngau cymdeithasol a gwasanaethau rhannu.
- Cynghorwyr proffesiynol sy'n gweithredu fel proseswyr a/neu gyd-reolyddion gan gynnwys cyfreithwyr, bancwyr, archwilwyr ac yswirwyr wedi'u lleoli yn y DU a/neu wledydd eraill, sy'n darparu gwasanaethau ymgynghori, bancio, cyfreithiol, yswiriant a chyfrifyddu.
- Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, rheoleiddwyr ac awdurdodau eraill sy'n gweithredu fel proseswyr, wedi'u lleoli yn y Deyrnas Unedig, sydd angen cael gwybod am weithgareddau prosesu o dan amgylchiadau penodol.
- Darparwyr gwasanaethau marchnata sy'n gweithredu fel proseswyr gan gynnwys cwmnïau postio ac arolygu sy'n gweithredu yn yr UE a'r tu allan, sy'n darparu gwasanaethau dosbarthu, adrodd a dadansoddi negeseuon e-bost ac arolygon.

EICH HAWLIAU CYFREITHIOL

Mae gennych yr hawl i wneud y canlynol:

Gofyn am gael gweld eich data

Gofyn am gael gweld eich data personol (a elwir yn aml yn "cais gwrthrych am ddata") Mae hyn yn eich galluogi i gael copi o'r data personol a ddelir gennym amdanoch chi a gwneud yn siŵr ein bod yn eu prosesu'n gyfreithlon.

Gofyn am gael cywiro eich data

Gofyn i ni gywiro'r data a ddelir gennym amdanoch. Mae hyn yn eich galluogi i gael unrhyw ddata anghyflawn neu anghywir a ddelir gennym amdanoch wedi'u cywiro, ond mae'n bosibl y bydd angen i ni ddilysu cywirdeb y data newydd rydych yn eu darparu i ni.

Gofyn am gael dileu'r data

Gofyn i ni ddileu eich data personol. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni ddileu neu gael gwared ar eich data personol os nad oes rheswm da dros barhau i'w prosesu. Mae gennych hefyd hawl i ofyn i ni ddileu neu gael gwared ar eich data personol lle rydych wedi arfer eich hawl i wrthwynebu prosesu'ch data yn llwyddiannus (gweler isod), lle mae'n bosibl ein bod wedi prosesu eich gwybodaeth yn anghyfreithlon neu lle ei bod yn ofynnol i ni ddileu eich data personol er mwyn cydymffurfio â chyfraith leol. Noder, fodd bynnag, na fydd modd i ni gydymffurfio â'ch cais i ddileu bob amser, a hynny am resymau cyfreithiol penodol yr eglurir i chi, os ydynt yn gymwys, ar adeg eich cais.

Gwrthwynebu prosesu

Gwrthwynebu prosesu eich data personol lle rydym yn dibynnu ar fuddiant dilys (neu fuddiant dilys trydydd parti) a bod rhywbeth am eich sefyllfa benodol sy'n gwneud i chi fod eisiau gwrthwynebu i'r prosesu ar y sail hon, gan eich bod o'r farn ei bod yn effeithio ar eich rhyddid a'ch hawliau sylfaenol. Mae gennych hefyd hawl i wrthwynebu lle rydym yn prosesu eich data at ddibenion marchnata uniongyrchol. Mewn rhai achosion, gallwn ddangos fod gennym sail ddilys sy'n cyfiawnhau prosesu eich gwybodaeth sy'n drech na'ch hawliau a'ch rhyddid chi.

Gofyn am gyfyngu ar brosesu

Gofyn i ni gyfyngu ar brosesu eich data personol. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni atal prosesu eich data personol dros dro yn y sefyllfaoedd canlynol: (a) os ydych eisiau i ni sicrhau bod y data'n gywir; (b) lle mae ein defnydd o'r data yn anghyfreithlon ond nad ydych eisiau i ni eu dileu; (c) lle rydych angen i ni ddal y data hyd yn oed os nad oes eu hangen arnom mwyach gan fod eu hangen arnoch chi i sefydlu, arfer neu amddiffyn yn erbyn hawliadau cyfreithiol; neu (d) rydych wedi gwrthwynebu i ni ddefnyddio eich data ond mae angen i ni ddilysu a oes gennym sail gyfreithlon i'w defnyddio sy'n drech na'ch gwrthwynebiad.

Gofyn am drosglwyddo'r data

Gofyn i ni drosglwyddo eich data personol i chi neu drydydd parti. Byddwn yn darparu eich data personol i chi, neu drydydd parti o'ch dewis, mewn fformat strwythuredig, a ddefnyddir yn gyffredin, ac y gellir ei ddarllen gan beiriant. Noder bod hyn ond yn gymwys i wybodaeth awtomataidd y gwnaethoch roi eich cydsyniad i ni ei defnyddio'n wreiddiol, neu lle y gwnaethom ddefnyddio'r wybodaeth i gyflawni contract â chi.

Tynnu cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg

Arbed am Byth

Polisi preifatrwydd a chwcis



Tynnu cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg lle rydym yn dibynnu ar gydsyniad i brosesu eich data personol. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn effeithio ar gyfreithlondeb unrhyw weithgarwch prosesu a wnaed cyn i chi dynnu'ch cydsyniad yn ôl. Os byddwch yn dynnu'ch cydsyniad yn ôl, mae'n bosibl na fyddwn yn gallu darparu cynhyrchion neu wasanaethau penodol i chi. Byddwn yn dweud wrthyfych am hyn ar yr adeg y byddwch yn dynnu eich cydsyniad yn ôl.

Polisi Cwcis

Cyflwyniad

Mae Arbed am Byth yn parhau eich preifatrwydd ac yn ymrwymedig i ddiogelu eich data personol. Bydd yr hysbysiad cwcis hwn yn rhoi gwybod i chi pa gwcis a ddefnyddir ar y wefan hon, a sut y cânt eu defnyddio.

I gael manylion am eich hawliau preifatrwydd a sut mae'r gyfraith yn eich diogelu, gweler ein polisi preifatrwydd.

Ffeiliau testun bach yw cwcis a roddir ar eich cyfrifiadur gan y gwefannau rydych yn ymweld â nhw. Cânt eu defnyddio'n helaeth er mwyn gwneud i wefannau weithio, neu weithio'n fwy effeithlon, ac er mwyn rhoi gwybodaeth i berchnogion y safle am agweddau ar eich ymweliad. Gallwch osod eich porwr i wrthod rhai cwcis porwyr neu bob un ohonynt, neu i roi gwybod i chi pan fydd gwefan yn gosod cwcis neu'n eu defnyddio ar eich porwr. Os byddwch yn analluogi neu'n gwrthod cwcis, noder na fydd rhai rhannau o'r wefan hon ar gael i chi neu ni fyddant yn gweithio'n iawn. Mae'r rhan fwyaf o borwyr gwe yn caniatáu i chi gael rhywfaint o reolaeth dros y rhan fwyaf o gwcis drwy osodiadau'r porwr. I gael gwybod mwy am gwcis, gan gynnwys gweld pa gwcis sydd wedi'u gosod a sut i'w rheoli a'u dileu, ewch i <http://www.allaboutcookies.org>.

Sut mae'r wefan hon yn defnyddio cwcis

Mae'r wybodaeth isod yn rhoi manylion y ffeiliau cwcis a all gael eu defnyddio o fewn y wefan hon.

Cwcis dadansoddi dienw

Bob tro y bydd defnyddiwr yn ymweld â'n gwefan, bydd meddalwedd allanol yn cynhyrchu "cwcis dadansoddi dienw" a all ddweud wrthyfych a ydych wedi ymweld â'r safle o'r blaen. Bydd eich porwr yn dweud wrthyfych a oes gennych y cwcis hyn ac os nad oes, byddwn yn cynhyrchu rhai newydd.

Mae hyn yn caniatáu i ni olrhain faint o ddefnyddwyr unigol sydd gennym a pha mor aml y maent yn ymweld â'r wefan. Nid yw'r cwcis hyn yn ein galluogi

Arbed am Byth

Polisi preifatrwydd a chwcis



i adnabod unigolyn. Rydym yn eu defnyddio i gasglu ystadegau, er enghraifft, nifer yr ymweliadau â thudalen neu am ba mor hir y mae defnyddiwr yn aros ar y dudalen.

Cwcis perfformiad y wefan

Mae'r math hwn o gwci yn cofio eich dewisiadau ar gyfer yr offer a ddefnyddir o fewn ein gwefan, fel nad oes rhaid i chi eu hailosod bob tro y byddwch yn ymweld â'r wefan. Ymhlith yr enghreifftiau mae:

- Ymwadiadau neu hysbysiadau sy'n gofyn am eich mewnbwn (derbyn neu wrthod).
- Opsiynau hidlo ar gyfer archifau, newyddion, astudiaethau achos ac ati.
- Cyflymderau ffrydio awdio/fideo sy'n gyson â'ch porwr.

Cwcis trydydd parti

Ar rai tudalennau ar ein gwefan, gall sefydliadau eraill hefyd osod eu cwcis dienw eu hunain. Gwnânt hyn i weld pa mor llwyddiannus yw eu cymhwysiad, neu i deilwra'r cymhwysiad i chi. Oherwydd y ffordd mae cwcis yn gweithio, ni all ein gwefan gael mynediad at y cwcis hyn, ac ni all y sefydliadau eraill gael gafael ar y data yn y cwcis rydym yn eu defnyddio ar ein gwefan ni ychwaith.

Er enghraifft, pan fyddwch yn cyflwyno data drwy arolwg neu ffurflen ar wefan, mae'n bosibl y caiff eich data eu hanfon i system trydydd parti allanol. Gallai hyn gynnwys system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid (CRM), rhwydweithiau cyfryngau cymdeithasol neu gymhwysiad gyrfaoedd.